# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

## (CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT, TALBOT A MICROSOFT TEAMS)

| **<u>Aelodau sy'n Bresennol:</u>** | **<u>Dydd Gwener, 16 Mehefin 2023</u>** |
| --- | --- |
| **Cadeirydd:** | **J.Jenkins** |
| **Is-gadeirydd:** | **H.Griffiths** |
| **Cynghorwyr:** | A.R.Aubrey, M.Spooner, O.S.Davies, P.D.Richards, P.Rogers a/ac W.Carpenter |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | D.Mulligan, H.Jones, A.O'Donnell, C.Furlow-Harris, M.Williams, D.Williams a/ac C.Plowman |
| **Cynrychioli Swyddfa Archwillio Cymru:** | D.Williams |
| **Aelod Lleyg sy'n Pleidleisio:** | A.Bagley |

---

1. **<u>PENODI CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD AR GYFER BLWYDDYN DDINESIG 2023/24</u>**

   **PENDERFYNWYD:**

   - Bod yr Aelod Lleyg, Joanna Jenkins, yn cael ei phenodi'n Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2023/24

   - Bod yr Aelod Lleyg, Helen Griffiths, yn cael ei benodi'n Ddirprwy Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2023/24

2. **<u>CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD</u>**

   Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

3. **<u>DATGANIADAU O FUDDIANNAU</u>**

   Derbyniwyd y Datganiadau o Fuddiannau canlynol yn ystod y drafodaeth am yr eitem agenda berthnasol:

| | |
|---|---|
| Joanna Jenkins: | Eitem 9 ar Agenda, Datganiad Cyfrifon Drafft ar gyfer 2022/23, gan ei bod yn ymwneud â dwy elusen sydd wedi elwa o gyllid grant. Nid oedd hi'n ystyried bod ei datganiad yn rhagfarnol, felly arhosodd ar gyfer y drafodaeth yn ei chylch. |
| Y Cyng. Phil Rogers: | Eitem 11 yr Agenda, Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol, gan ei fod yn Llywodraethwr Ysgol yn Ysgol Gymunedol Llangatwg y sonnir amdani yn yr adroddiad a ddosbarthwyd. Roedd ganddo oddefeb i siarad, felly arhosodd am y drafodaeth yn ei chylch. |

## 4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2023 fel cofnod cywir.

## 5. BLAENRAGLEN WAITH

Nodwyd y Blaenraglen Waith.

## 6. COFRESTR SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU O ADRODDIADAU AC ARGYMHELLION RHEOLYDDION

Darparwyd fersiwn wedi'i diweddaru i'r aelodau o Gofrestr Adroddiadau ac Argymhellion y Rheoleiddwyr.

Amlygwyd bod yr adroddiad a ddosbarthwyd yn manylu ar drosolwg o'r Adroddiadau Rheoleiddwyr a dderbyniwyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio; a lle, os o gwbl, y cymerwyd camau gweithredu ar argymhellion a gynhwysir yn yr adroddiadau hynny.

**PENDERFYNWYD:**

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

## 7. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL DRAFFT 2022-2023

Cyflwynwyd Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft y cyngor ar gyfer 2022-2023 i'r Pwyllgor.

Eglurwyd y tynnwyd sylw'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio at yr adroddiad er mwyn i'r Pwyllgor adolygu'r wybodaeth, ac i sicrhau bod gan y cyngor weithdrefnau llywodraethu cadarn ar waith.

Holodd yr Aelodau pam fod y Cynllun Gweithredu Gwella Llywodraethu ar gyfer 2023/24 wedi'i lofnodi gan y Prif Weithredwr ac Arweinydd Cyngor Castell-nedd Port Talbot, ond heb ei ddyddio. Cadarnhaodd swyddogion fod yr adroddiad a ddosbarthwyd yn fersiwn ddrafft i'w hadolygu; a bydd yn cael ei dyddio ar ôl iddo gael ei chymeradwyo gan y Cabinet.

**PENDERFYNWYD:**

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

## 8. POLISI RHEOLI RISGIAU CORFFOREDIG

Cyflwynodd swyddogion y Polisi Rheoli Risgiau Corfforedig i'r Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD:**

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

## 9. DATGANIAD O GYFRIFON DRAFFT AR GYFER 2022/23

Cyflwynwyd Datganiad o Gyfrifon Drafft ar gyfer 2022/23 i'r Aelodau.

Amlygwyd bod y Datganiad Cyfrifon Drafft wedi'i ddarparu i Swyddfa Archwilio Cymru er mwyn iddynt ddechrau ar eu gwaith archwilio; bydd y cyfrifon yn cael eu cyflwyno eto i'r Pwyllgor unwaith y bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau.

**PENDERFYNWYD:**

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

## 10. STRATEGAETH GWRTH-DWYLL A GWRTH-LYGREDD DDIWYGIEDIG

Cyflwynwyd fersiwn ddiwygiedig y Strategaeth Gwrth-Dwyll a Llygredd gerbron y Pwyllgor, er mwyn i'r Aelodau gynorthwyo i gyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas â gwasanaethau archwilio.

**PENDERFYNWYD:**

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

11. **ADRODDIAD DIWEDDARU ARCHWILIO MEWNOL**

Roedd yr adroddiad a ddosbarthwyd yn rhoi manylion am y gwaith archwilio mewnol a wnaed ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 17 Mawrth 2023.

Cadarnhawyd mai dim ond un adroddiad a gyhoeddwyd gyda sicrwydd cyfyngedig allan o'r holl adroddiadau a gyhoeddwyd, a manylwyd arno yn yr adroddiad a ddosbarthwyd fel 'Adeiladau'r Cyngor'. Soniodd swyddogion fod y rhan fwyaf o'r gwiriadau adeiladu angenrheidiol yn cael eu cynnal a bod sicrwydd cyfyngedig wedi'i roi yn seiliedig ar weinyddiaeth.

**PENDERFYNWYD:**

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

12. **ADRODDIAD BLYNYDDOL ARCHWILIO MEWNOL 2022/23**

Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2022/23.

Nodwyd bod yr adroddiad a ddosbarthwyd yn rhoi sicrwydd o ran y gwaith archwilio a wnaed a'r trefniadau llywodraethu. Cadarnhaodd swyddogion fod y Pennaeth Archwilio Mewnol wedi rhoi sgôr sicrwydd rhesymol eleni; ni all sicrwydd byth fod yn absoliwt, a'r sgôr hon yw'r uchaf y gellid ei darparu.

**PENDERFYNWYD:**

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

13. **ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 2022/23**

Cyflwynwyd fersiwn ddrafft Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2022/23 i'r Aelodau; lluniwyd yr adroddiad a ddosbarthwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD:**

Bod adroddiad blynyddol drafft y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2022-23 yn cael ei adolygu a'i gymeradwyo gan Aelodau, cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn.

14. **EITEMAU BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

15. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

**PENDERFYNWYD:** Yn unol ag Adran 100A(4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y cyhoedd o'r eitemau busnes canlynol a oedd yn cynnwys datganiadau posib o wybodaeth eithriedig, fel a ddiffinnir ym Mharagraff 12, 13 ac 14 o Ran 4 Atodlen 12A y Ddeddf uchod.

16. **ARCHWILIO MEWNOL - YMCHWILIADAU ARBENNIG (YN EITHRIEDIG DAN BARAGRAFF 14)**

Rhoddodd Swyddogion yr wybodaeth ddiweddaraf am bob adroddiad ymchwiliad arbennig a gyhoeddwyd ers y cyfarfod diwethaf; gan gynnwys manylion yr holl ymchwiliadau arbennig cyfredol.

**PENDERFYNWYD:**

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

**CADEIRYDD**

Mae'r dudalen hon yn fwriadol wag